**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Addysg ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2024. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Jeremy Miles AS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

25 Ionawr 2024

## RHAN 1

### Disgrifiad

1. Mae Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2024 ("Rheoliadau 2024") yn diwygio Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015") sy'n llywodraethu aelodaeth a gweithdrefnau'r Pwyllgor Ymchwilio a'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer.

2. Mae'r diwygio yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Gyngor y Gweithlu Addysg ("CGA") benodi aelodau panel o gronfa ehangach o ymarferwyr cofrestredig.

3. Yn ogystal, mae diwygiadau pellach yn cywiro gwall gramadegol bychan yn enw'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer a chamgymeriad mewn croesgyfeiriad yn rheoliad 45(3)(b) o Reoliadau 2015.

### Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

4. Dim.

### Y cefndir deddfwriaethol

5. Mae Rheoliadau 2024 yn cael eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir yn adrannau 13(1), 28(1), 36(2) a 37(2) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014([1]).

### Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

6. Mae Rheoliad 26 o Reoliadau 2015 yn nodi gofynion aelodaeth a gweithdrefn pwyllgorau mewn perthynas â gwaith achos addasrwydd i ymarfer CGA. Yn benodol, mae'r rheoliad hwnnw'n nodi'r gofynion aelodaeth ar gyfer y "Pwyllgor Ymchwilio" a'r "Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer" ("y Pwyllgorau").

7. Un o'r gofynion yw bod yn rhaid i'r Pwyllgorau gynnwys un aelod cofrestredig ac un aelod lleyg. Mae aelod sy'n berson cofrestredig yn berson sydd wedi'i gofrestru gyda'r CGA yn yr un categori cofrestru â'r person sy'n wynebu'r achos ac mae'n gyflogedig neu wedi ei gymryd ymlaen fel person cyflogedig ar ddyddiad ei benodi i'r Pwyllgor. Mae aelod lleyg yn berson nad yw wedi ei gofrestru gyda'r CGA ac nad yw'n berson[2]

---

[1] 2014 dccc 5.
[2] Ystyr person sydd wedi ei wahardd yw unrhyw berson sydd:

> i) yn gyflogedig, neu wedi ei gymryd ymlaen i ddarparu gwasanaethau perthnasol o fewn y cyfnod o 5 mlynedd a fydd yn dod i ben ar ddyddiad penodi'r person hwnnw ar y Pwyllgor;

sydd wedi ei wahardd. Ni allai person sydd wedi ei wahardd fod yn aelod cofrestredig oherwydd byddai'r statws hwnnw yn ei atal rhag parhau'n gofrestredig.

8. Yn dilyn diwygiadau diweddar i'r categorïau cofrestru, fel y nodir yng Ngorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2023 ("Gorchymyn 2023") a ddaeth i rym ym mis Mai 2023, mae 11 categori cofrestru ar wahân erbyn hyn, ac mae'n bosibl y bydd mwy yn y dyfodol:

- athro neu athrawes ysgol a gynhelir
- athro neu athrawes addysg bellach
- athro neu athrawes ysgol annibynnol
- athro neu athrawes sefydliad ôl-16 arbenig annibynnol
- ymarferydd dysgu seiliedig ar waith
- gweithiwr ieuenctid
- gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol a gynhelir
- gweithwyr cymorth dysgu mewn addysg bellach
- gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol annibynnol
- gweithiwr cymorth dysgu mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol
- gweithiwr cymorth ieuenctid

9. O dan y gofynion presennol yn rheoliad 26 o Reoliadau 2015, mae CGA yn aml yn profi heriau wrth geisio dod o hyd i aelodau ar gyfer y Pwyllgorau. Gall hyn achosi oedi ar gyfer ymchwiliadau a gwrandawiadau, ac felly greu risgiau cynyddol i les y rhai sy'n ymwneud â'r broses.

10. Gyda mwy o gategorïau, os na fydd y ddeddfwriaeth yn newid, byddai angen i CGA recriwtio ymarferwyr o gronfeydd o bobl gofrestredig a allai fod yn fach iawn er mwyn gwneud ei waith rheoleiddio yn y categorïau hynny yn unig. Lle mae nifer y bobl gofrestredig mewn grŵp yn fach iawn, mae'n fwy tebygol iddynt fod yn gyfarwydd â'i gilydd, sy'n debygol o arwain at wrthdaro buddiannau. Felly, bydd yn gryn her i'r CGA recriwtio aelodau i fod ar Bwyllgorau i ystyried achosion mewn cysylltiad â'r categorïau cofrestru hynny. Bydd hon yn broblem arbennig i rai o'r categorïau cofrestru newydd llai, lle mae'r gweithlu'n fach.

11. Yn ogystal, mae'n bosibl bod personau sy'n wynebu ymchwiliad ac achos addasrwydd i ymarfer wedi eu cofrestru mewn mwy nag un categori. Wrth ychwanegu mwy o gategorïau cofrestru, rhagwelir y bydd y broses o ddod o hyd i bobl addas ar gyfer y Pwyllgorau yn anoddach byth yn weinyddol.

---

(ii) wedi ei wahardd rhag cyflawni gweithgaredd a reoleiddir yn ymwneud â phlant (o fewn ystyr adran 3(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006);

(iii) yn destun gorchymyn disgyblu a wnaed o dan Ddeddf 2014 ac yn rhinwedd y gorchymyn hwnnw bod y person yn anghymwys i gofrestru; neu

(iv) wedi ei anghymhwyso rhag gweithio mewn swydd sy’n gyfystyr â chategori cofrestru;

12. Hefyd, rhaid cofio bod gan bobl gofrestredig hawl i ofyn i'w gwrandawiad gael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn ychwanegu at y broblem gan fod nifer yr aelodau o baneli Pwyllgorau sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfyngedig mewn rhai sectorau.

13. Yn olaf, mae rolau Pwyllgorau yn wirfoddol, a rhaid cael cefnogaeth reolwyr llinell a chyflogwyr yr ymarferwyr er mwyn hwyluso eu rhyddhau o'u swydd arferol. Efallai y bydd staff cymorth dysgu mewn ysgolion a'r rhai mewn addysg bellach yn ei chael yn arbennig o anodd a) i gael cefnogaeth i wneud cais am y rôl, a b) i gael eu rhyddau o'u swyddi arferol i wneud eu gwaith fel aelod. Mae hyn yn golygu bod nifer yr ymarferwyr sy'n gallu bod yn aelodau Pwyllgor mewn rhai categorïau, ac sy'n barod i wirfoddoli, yn isel iawn.

14. Bydd y diwygiadau i Reoliadau 2015 sydd yn cael eu gwneud gan Reoliadau 2024 yn golygu y bydd gan CGA fwy o hyblygrwydd i benodi aelodau panel o gronfa ehangach o ymarferwyr cofrestredig. Mae egwyddorion tegwch a thryloywder yn parhau ac ni fydd unrhyw berson sy'n wynebu achos addasrwydd i ymarfer dan anfantais oherwydd y newid.

*Aelod sy'n berson cofrestredig*

15. Yn hytrach na bod Pwyllgorau angen person '*sy'n berson cofrestredig o'r un categori cofrestru â'r person cofrestredig sy'n destun yr achos disgyblu ',* mae angen person sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:

- rhaid iddynt fod wedi cofrestru gyda'r CGA (ond nid o reidrwydd yn yr un categori â'r person sy'n destun i'r achos),[3] a
- (ii) rhaid iddynt fod yn gyflogedig, neu wedi eu cymryd ymlaen ac eithrio o dan gontract cyflogaeth, yn un o'r swyddi a ddisgrifir yn y categorïau cofrestru ar y dyddiad y penodir yr aelod hwnnw sy'n berson cofrestredig i'r Pwyllgor.

16. Mae'r CGA yn penderfynu a yw profiad a dealltwriaeth unigolyn yn ei wneud yn addas i'w benodi fel aelod cofrestredig. Er nad yw'n ofyniad statudol datganedig, mewn unrhyw achos, mae'r CGA yn ystyried hyn wrth wneud penodiadau o'r fath.

17. Caiff pob aelod o'r panel addasrwydd i ymarfer eu penodi drwy broses recriwtio fanwl lle mae eu hymddygiad a'u sgiliau yn cael eu asesu. Mae rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus gwblhau rhaglen sefydlu a mentora strwythuredig, ac mae'n orfodol iddynt fynychu hyfforddiant blynyddol. Mae pob aelod o'r panel yn ymrwymo i weithredu'n ddiduedd a chydag uniondeb.

[3] Mae'r gofyniad i gofrestru yn atal unrhyw berson nad yw'n gymwys i gofrestru rhag bod yn aelod cofrestredig (person wedi ei wahardd).

18. Bydd rhoi mwy o hyblygrwydd i CGA wrth benodi aelodau panel y Pwyllgorau drwy Reoliadau 2024 yn caniatáu i achosion fynd yn eu blaen yn ddi-oed.

19. Yn dilyn cyflwyno Rheoliadau 2024, bydd CGA hefyd yn ymgynghori ar ei *weithdrefnau a'i reolau Disgyblu* [4]i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r gofynion deddfwriaethol newydd yn llawn.

20. Bydd yr hyblygrwydd cynyddol hwn mewn perthynas ag aelod cofrestredig y Pwyllgorau yn caniatáu i'r gwaith rheoleiddio priodol ar bob categori cofrestru barhau, waeth faint o gategorïau sydd ar gael nawr neu a ychwanegir yn y dyfodol.

*Newid enw'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer*

21. Mae Rheoliadau 2015 yn cyfeirio at "Fitness to Practice Committee" ond dylent gyfeirio, yn hytrach, at y "Fitness to Practi*s*e Committee". Mae Rheoliadau 2024 bellach yn cyd-fynd â phwyllgorau addasrwydd i ymarfer eraill fel y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer Gofal Cymdeithasol, drwy ddiwygio teitl y pwyllgor yn unol â hynny. Mae hwn yn fân newid technegol ac nid yw'n cael unrhyw effaith ar waith CGA na'r Pwyllgorau.

*Newid i Atodlen 2 o Reoliadau 2015: Materion sydd i'w cofnodi ar y Gofrestr*

22. Mae paragraff 21 o Atodlen 2 o Reoliadau 2015 yn nodi bod yn rhaid i'r CGA gadw ar y Gofrestr "delerau unrhyw gyfyngiad neu fanylion unrhyw waharddiad sydd mewn grym am y tro mewn perthynas â'r person cofrestredig o ganlyniad i gyfarwyddyd a roddwyd o dan adran 142 o Ddeddf 2002" – hynny yw yr adran gwahardd rhag addysgu yn Neddf Addysg 2002.

23. Diddymwyd adran 142 yn Neddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 gydag effaith o 12 Hydref 2009 (yn amodol ar rai darpariaethau trosiannol). Ar yr un pryd, daeth Adran 167A o Ddeddf 2002 - hynny yw, y gwaharddiad ar gymryd rhan mewn rheoli ysgolion annibynnol, i rym.

24. Er bod adran 167A wedi bod mewn grym ers 2009 ni roddwyd unrhyw gyfarwyddyd gan nad yw'r rheoliadau angenrheidiol erioed wedi'u gwneud i ragnodi'r seiliau neu'r weithdrefn berthnasol. Bydd Rheoliadau arfaethedig Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli) (Cymru) 2023 ("Rheoliadau 2023") yn darparu'r pwerau hyn. Disgwylir i Reoliadau 2023 ddod i rym ar ddechrau 2024.

25. Er mwyn rhoi effaith lawn i'r ddarpariaeth hon a galluogi'r CGA i gadw cofrestr gywir, mae Rheoliadau 2015 yn cael eu diwygio i gynnwys cyfeiriad at adran 167A ym mharagraff 21 Atodlen 2 i Reoliadau 2015.

---

[4] Priodoldeb i ymarfer (ewc.cymru).

**Ymgynghori**

26. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn rhwng 11 Medi a 1 Rhagfyr 2023. Ymatebodd 26 o unigolion a sefydliadau yn ystod y cyfnod ymgynghori a daeth un ymateb pellach i law ar ôl i'r ymgynghoriad gau. Cafodd yr holl ymatebion eu hystyried yn ofalus, a chyhoeddwyd crynodeb o'r materion a godwyd ar wefan Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2024.

27. Roedd cefnogaeth eang i'r cynnig i ddiwygio'r gofynion ar gyfer pwyllgorau gyda 68% o'r ymatebwyr yn cytuno. Roedd 65% yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru o effeithiau'r newidiadau hyn. Yn yr un modd, roedd 84% yn cytuno â'r diwygiadau amrywiol a gynigwyd.

28. O ran yr effaith ar y Gymraeg, cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr na fyddai unrhyw effeithiau andwyol o ganlyniad i'r diwygiadau arfaethedig i Reoliadau 2015. Dywedodd rhai y dylai cael mwy o hyblygrwydd wrth benodi aelodau'r panel gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg gan y bydd cronfa ehangach o siaradwyr Cymraeg gyda'r profiad a'r ddealltwriaeth gywir i ddewis ohonynt.

29. Y prif bryder a godwyd oedd a fydd y trefniadau newydd o dan Reoliadau 2024 yn cynnal addasrwydd yr aelod o'r panel sy'n berson cofrestredig.

30. Fel yn achos Rheoliadau 2015, mae prosesau'r CGA i benodi aelodau addas o'r panel yn gadarn. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd profiad a gwybodaeth berthnasol o'r sector y mae'r person sy'n destun achos yn gweithio ynddo, yn ffactor blaenoriaeth. Dim ond yn yr achosion lle nad yw hyn yn bosibl oherwydd bod cronfa fach iawn o ymarferwyr cofrestredig y bydd yr aelod cofrestredig yn dod o sector gwahanol. Bydd ymddygiad a sgiliau pob aelod o'r panel yn parhau i gael eu hasesu drwy'r un prosesau trylwyr a bydd yn rhaid iddynt fynychu hyfforddiant gorfodol.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

31. Mae Rhan 5 o Reoliadau 2015 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â swyddogaethau disgyblu CGA. Yn benodol, mae rheoliad 26 o Ran 5 o Reoliadau 2015 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag aelodaeth a gweithdrefn y Pwyllgor Ymchwilio a'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer a sefydlwyd gan y Cyngor. Yn benodol, mae rheoliad 26(1) yn ei gwneud yn ofynnol i CGA benodi aelod sy'n berson cofrestredig i bob un o'r pwyllgorau hynny.

32. Mae Rheoliadau 2024 yn diwygio'r ddarpariaeth hon fel na fydd yn ofyniad mwyach i'r aelod sy'n berson cofrestredig fod wedi ei gofrestru yn yr un categori â'r person cofrestredig sy'n destun yr achos disgyblu. Yn hytrach, dim ond mewn o leiaf un o'r categorïau cofrestru y mae angen i'r aelod sy'n berson cofrestredig fod wedi ei gofrestru.

33. Gwnaed diwygiadau amrywiol pellach i gywiro gwall gramadegol, cywiro camgymeriad mewn croesgyfeiriad yn rheoliad 45, ac i gynnwys cyfeiriad at adran 167A o Ddeddf Addysg 2002 (gwahardd cymryd rhan yng ngwaith rheoli ysgolion annibynnol) ym mharagraff 21 o Ran 1 o Atodlen 2 i Reoliadau 2015.

### Yr opsiynau

<u>Dewis 1: gwneud dim</u>

34. Os na chaiff Rheoliadau 2015 eu diwygio, barn Llywodraeth Cymru yw y gallai gwaith achos addasrwydd i ymarfer CGA fod yn destun oedi cynyddol a fyddai'n rhoi unigolion sy'n destun i'r achosion hynny o dan anfantais. Hefyd, gallai'r ansicrwydd ynghylch pryd ddaw achosion i ben effeithio ar ddysgwyr, gan arwain at bwysau staffio mewn lleoliadau.

<u>Costau a manteision opsiwn 1:</u>

35. Ni fydd unrhyw gostau ariannol i Opsiwn 1. Fodd bynnag, ni fyddai unrhyw fanteision canfyddedig, a gallai arwain at oedi, a fyddai'n rhoi unigolion sy'n wynebu achos o dan anfantais.

<u>Opsiwn 2 – gwneud Rheoliadau 2024</u>

36. Mae rheoliad 26 yn Rhan 5 o Reoliadau 2015 wedi effeithio'n gynyddol ar allu'r CGA i gynnull paneli yn effeithiol. Mae hyn wedi gwaethygu bob tro y cyflwynwyd categorïau cofrestru newydd ac yn enwedig pan ddaeth Gorchymyn 2023 i rym ym mis Mai 2023.

37. Roedd Gorchymyn 2023 yn ymateb i bryderon ynghylch diogelu lle'r oedd unigolion mewn gwahanol sectorau sy'n gwneud rolau tebyg iawn yn destun rheolau gwahanol ar gofrestru proffesiynol. Erbyn hyn mae 11 categori cofrestru ac mae'n debygol y bydd mwy yn y dyfodol. Lle mae nifer yr unigolion sydd wedi'u cofrestru mewn grwpiau penodol yn fach, bydd CGA

yn wynebu anhawster cynyddol yn weinyddol wrth geisio cynnull paneli os na fydd y Rheoliadau cael eu newid.

38. Ar ben hynny, mae angen y diwygiadau amrywiol er mwyn diweddaru Rheoliadau 2015 a chywiro gwallau gramadegol.

Costau a manteision opsiwn 2:

39. Nid oes unrhyw oblygiadau cost ychwanegol ynghlwm wrth wneud y Gorchymyn. Gall amser staff i wneud y ddeddfwriaeth ddod o'r adnoddau presennol.

40. Bydd CGA a'r unigolion sy'n wynebu achos yn elwa ar yr hyblygrwydd a ddarperir gan Reoliadau 2024.

41. Mae gwaith achos addasrwydd i ymarfer CGA yn rhan hanfodol o sicrhau bod y bobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliadau addysg a gwaith ieuenctid yn addas ac yn gallu gwneud hynny. Trwy weithdrefnau cadarn a sicrhau bod pwyllgorau wedi'u staffio'n llawn a'u ffurfio'n deg, bydd modd atal niwed i ddysgwyr yn sgil ymarferwyr anaddas.

42. Barn Llywodraeth Cymru yw y bydd Rheoliadau 2024 yn cynorthwyo CGA i gyflawni'r gwaith achos addasrwydd i ymarfer, o ran cyfansoddiad eu pwyllgorau, fel y bydd y mater o recriwtio aelodau panel o gronfa gyfyngedig yn cael ei liniaru os bydd mwy o grwpiau cofrestredig yn cael eu mandadu yn y dyfodol.

Dewisiadau eraill a chasgliad

43. Nid oes unrhyw opsiynau ymarferol nad ydynt yn ddeddfwriaethol ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hyn.

44. Barn Llywodraeth Cymru felly yw bod hwn yn barhad pwysig ac angenrheidiol o'r gwaith i ymestyn y categorïau cofrestru.

**Asesu'r gystadleuaeth**

45. Nid oes unrhyw oblygiadau i'r farchnad yn gysylltiedig â Gorchymyn 2023. Nid oes unrhyw effaith o safbwynt cystadleuaeth.

**Adolygiad ar ôl gweithredu**

46. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r CGA i fonitro effeithiau Rheoliadau 2024.

47. Mae asesiad effaith integredig llawn wedi cael ei baratoi a gyhoeddwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar Reoliadau 2024 Canfyddiad yr asesiad oeddy gellid disgwyl effaith niwtral i gadarnhaol, yn enwedig ar blant a phobl ifanc. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar gyfer unrhyw grwpiau â

nodweddion gwarchodedig.  Gellir disgwyl effaith niwtral i gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg.

48. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu hyn drwy gydol y broses weithredu a thros y blynyddoedd nesaf er mwyn sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau penodol yn cael eu lliniaru.